CBAC WJEC

# TAG UG/Uwch

1373/51

## CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3

### DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH

*(Papur Ysgrifenedig)*

P.M. DYDD MAWRTH, 11 Ionawr 2011

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

SJJ*(W11-1373-51)

## Adran A

## Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [10]

af
rhedwn i
iddyn nhw
nad oes
pe bai

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [20]

(i) Wrth dorri'r goeden a bwyell y torrais bawd fi.

(ii) Bob blwyddyn pan oeddwn yn iau af i'r plygain yn plygeiniol.

(iii) Rwyf yn gwybod bod hi ddim yn angel mewn y pasiant Nadolig.

(iv) Daeth pobl o bell ag agos neithiwr i weld y sioe a berfformid yn lleol.

(v) Wn i ddim os ydy hi wedi ysgrifennu erthygl gwyddonol i'r papur bro lleol.

*(c)* Dyma gyflwyniad i gyfrol o gerddi gan ddisgyblion Adran Gymraeg Ysgol Uwchradd Abernodyn.

Mae **deg gwall** yn y darn. **Ailysgrifennwch** y darn gan **danlinellu** pob gwall a **gywirwyd**. [10]

Gan bod ni'n dathlu canmlwyddiant yr ysgol eleni pleser yw cyflwyno'r gyfrol hon o gerddi sy'n ffrwyth llafur gweithdy creadigol gynhelir gan yr adran yn ddiweddar. Mae'r ystod oedran yn eang ond un peth sy'n gyffredin yw bod mae'r disgyblion i gyd yn meddu ar ddawn arbennig i drin geiriau a chreu delweddau. Cyflwynir y cerddi syniadau amrywiol. Ceir themâu cyfoes gyda'r lluniau gweledol cyn gystal a'r delweddau sydd yn y cerddi.

Rydym yn ffyddiog y caech oriau o fwynhad yn pori drwy'r gyfrol. Mynwch gopi a mwynhewch yr holl trysorau sydd ynddi.

## Adran B

## Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, dylech gofio:*

- *defnyddio nifer digonol o gerddi (o leiaf dair cerdd) wrth ymateb i ofynion y cwestiwn*
- *dadansoddi arddull*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol*
- *defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.*

**Naill ai**

*(a)* Mae Cymru a'r iaith Gymraeg wedi ysbrydoli cerddi **Myrddin ap Dafydd** a **Gerallt Lloyd Owen**. Wrth ystyried y cerddi hyn a astudiwyd gennych **trafodwch** a **chymharwch** eu **gweledigaeth** am Gymru a'r iaith Gymraeg. Bydd angen dangos sut y llwyddodd y beirdd i **gyfleu eu gweledigaeth**, a thrafod **arddull** y cerddi. [80]

**Neu**

*(b)* **Mynegi'r ymdeimlad dwfn o berthyn** a wna nifer o feirdd yn eu cerddi boed i ddarn o dir neu hanes gwlad. **Trafodwch** a **chymharwch arwyddocâd** yr ymdeimlad yma o berthyn a gawn yng ngwaith y beirdd gan gyfeirio at y cerddi '**Hen Ŵr y Môr**', '**Darllen y Map yn Iawn**' ac '**Yma y mae fy lle**'. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi, **agwedd** y beirdd a'u **harddull**. [80]

**TAG UG/Uwch**

1373/51-A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY3
# *WELSH: FIRST LANGUAGE CY3*
## DEFNYDDIO'R IAITH, A BARDDONIAETH
## *USE OF LANGUAGE, AND POETRY*

(Papur Ysgrifenedig)
*(Written Paper)*

P.M. DYDD MAWRTH, 11 Ionawr 2011
*P.M. TUESDAY, 11 January 2011*

2 awr
*2 hours*

| **Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**<br>***For the attention of the Examinations Officer*** |
|---|

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogysal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

**Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Awgrymir eich bod yn treulio $\frac{3}{4}$ awr ar Adran A ac $1\frac{1}{4}$ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*In addition to this paper, you will need a 12 page answer book.*

***Copies of the poetry studied and dictionaries are not permitted in this examination.***

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the* **two** *questions.*

*Write your answers in the answer booklet that is provided.*

*Where it is necessary to express your opinions you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.*

*You are reminded that assessment will take into account the quality of written communication in your answer.*

*You are advised to spend $\frac{3}{4}$ hour on Section A and $1\frac{1}{4}$ hours on Section B.*

*You should spend 15 minutes to plan your essay in Section B.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is specified in brackets at the end of each question or part-question.*

SJJ*(W11-1373-51-A)